# CANLLAW CWRICWLWM GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

TREES FOR CITIES

| HYDREF | GWANWYN | HAF |
|---|---|---|
| Plannwch hadau a'u gwylio'n tyfu, yna tynnwch luniau ac ysgrifennu dyddiadur o gylch bywyd eich planhigion. | Arsylwch ar yr ardd gyda chwyddwydr. Ceisiwch adnabod nodweddion unrhyw greaduriaid a welwch. Faint o goesau sydd ganddyn nhw? A oes ganddyn nhw adenydd, antena ac ati? | Crëwch flychau propiau stori o ddeunyddiau gardd a gweithgareddau tyfu bwyd. Darllenwch straeon ffermio a'u hactio |
| Dysgwch am y tymhorau a llysiau tymhorol a beth sy'n tyfu dros yr hydref a'r gaeaf yn y DU. Crëwch rysáit cawl y gaeaf o lysiau'r gaeaf rydych chi wedi'u cynaeafu. | Dangos gofal a chonsyrn dros bethau byw, gofalu am blanhigion bach, yn y tŷ gwydr a'r ystafell ddosbarth, i'w cadw'n gynnes ac i'w dyfrio. Ydyn nhw'n tyfu'n gyflymach na'r un planhigion wedi'u plannu allan? | Edrychwch ar gylchoedd bywyd y trychfilod yn yr ardd. Cadwch rywfaint o fuchod coch cwta a'u larfâu a sylwi sut maen nhw'n newid. |
| Planhigion<br>Casglwch amrywiaeth o ddail yn eich Gardd Llawn Bwyd a nodwch pa rai sy'n rhai collddail a pha rai sy'n fythwyrdd. | Anifeiliaid<br>Gan ddefnyddio llwyau, chwyddwydr a dysglau petri, ewch ar helfa drychfilod. Allwch chi ddod o hyd i wahanol fathau o infertebratau? | Gweithio mewn Ffordd Wyddonol<br>Gwnewch bentwr o ddeunyddiau naturiol o'ch Gardd Llawn Bwyd a thir yr ysgol. Mae'n rhaid i'r plant eu didoli i grwpiau gwahanol yn ôl gwahanol feini prawf. A allan nhw greu eu meini prawf eu hunain ar gyfer didoli? |
| Deunyddiau Dydd-i-Ddydd<br>Casglwch amrywiaeth o ddeunyddiau o'ch Gardd Llawn Bwyd a'u didoli yn rhai naturiol a rhai o waith dyn ac ystyriwch eu nodweddion. | Planhigion<br>Ymchwiliwch i dyfu'r un math o blanhigyn mewn gwahanol rannau o'r ardd. Gwnewch ragfynegiadau a chasgliadau yn seiliedig ar yr hyn rydych chi wedi'i ddarganfod. | Anifeiliaid<br>Gwnewch beli bwydo adar i'w hongian yn eich Gardd Llawn Bwyd. |
| Deunyddiau a'u Priodweddau<br>Cynlluniwch a dyluniwch y gwesty trychfilod perffaith. Casglwch y deunyddiau sydd eu hangen a chyfunwch yr holl syniadau i roi bywyd iddo. | Pethau Byw<br>Enwch y chwyn yn eich Gardd Llawn Bwyd a chreu canllaw adnabod ar gyfer y dosbarth. | Cynefinoedd<br>Cymharwch a chyferbynnwch anifeiliaid sy'n byw mewn amgylchedd garw (e.e. Antarctica) â'r anifeiliaid yn eich gardd chi. Ydych chi'n meddwl y bydden nhw'n gallu goroesi yng nghynefinoedd ei gilydd? |
| Planhigion<br>Cynaeafwch ffrwythau, cnau a hadau yn yr hydref. Allwch chi eu didoli'n grwpiau? | Gerddi Bychan<br>Dyluniwch eich gardd berffaith eich hun, yna gan ddefnyddio toriadau bach o'r planhigion o'ch Gardd Llawn Bwyd, llenwch hambyrddau â phridd a gwneud model o'ch gardd. | Cerrig<br>Arbrofwch gyda'r gwahanol fathau o gerrig a chreigiau sydd i'w cael yn eich Gardd Llawn Bwyd/man awyr agored. |
| Golau<br>Arbrofwch gydag effaith golau ar dwf planhigion trwy osod arbrawf sy'n rhoi gwahanol faint o olau i wahanol blanhigion. Ymestynnwch hyn i amrywio faint o ddŵr a rowch. | Grymoedd a Magnetau<br>Ymchwiliwch i'r grymoedd sydd ar waith yn eich Gardd Llawn Bwyd, e.e. olwyn fflat ar ferfa, codi chwyn, gwthio rhaw fach i'r pridd. | Gweithio mewn Ffordd Wyddonol<br>Gosodwch arbrawf gyda seleri a lliw bwyd i ddangos sut mae dŵr a maethynnau'n cael eu trawsgludo i'r dail. |
| Pethau Byw a'u Cynefinoedd | Sain | Planhigion |

| | | |
|---|---|---|
| Dewch o hyd i enghraifft o addasiadau mewn trychfilod, malwod yn erbyn gwlithod, elytra buchod coch cwta sy'n gorchuddio eu hadenydd bregus | Archwiliwch a chymharwch synau yn eich Gardd Llawn Bwyd. Pa ddeunyddiau fyddai'n gweithio orau i greu sgriniau sain? | Dyluniwch amrywogaeth well o ffrwyth neu lysieuyn. Disgrifiwch o ba blanhigion presennol y bydd yn cael ei 'bridio'. Crëwch becyn hadau ar gyfer yr amrywogaeth newydd. |
| Dylunio a Gwerthuso<br>Dyluniwch eich darn o offer eich hun i'w ddefnyddio yn eich Gardd Llawn Bwyd a gwerthuswch eich un chi yn erbyn rhai pobl eraill. | Cyflyrau Mater<br>Crëwch dai gwydr bach yn eich Gardd Llawn Bwyd gan ddefnyddio closhys wedi'u gwneud o boteli diodydd plastig wyneb-i-waered. Cymharwch faint o anwedd sydd dros bridd gwlyb a phridd sych, gyda phlanhigyn y tu mewn neu heb un, gyda chwpanaid o ddŵr neu heb un. | Tecstilau<br>Prosiect: Cyfres o ddillad wedi'u dylunio ar thema ffrwythau a llysiau gan ddefnyddio dillad wedi'u hailgylchu (cyfres o wersi). |
| Pethau Byw a'u Cynefinoedd<br>Rhowch enghraifft o famal ac o bryf a geir yn eich Gardd Llawn Bwyd a chymharwch a chyferbynnwch eu cylchoedd bywyd. | Technoleg Bwyd<br>Gwnewch besto a chymysgeddau bwyd amrwd eraill gan ddefnyddio detholiad o berlysiau o'ch Gardd Llawn Bwyd. | Anifeiliaid gan gynnwys bodau dynol<br>Trafodwch rôl diet mewn ffordd iach o fyw. Cynlluniwch bryd o fwyd neu gynllun prydau wythnosol gan ddefnyddio cynnyrch o'ch Gardd Llawn Bwyd, a dangos sut mae'n ddiet cytbwys mewn perthynas â'r maethynnau yn y bwyd. |
| Priodweddau a Newidiadau i Ddeunyddiau<br>Gwnewch arbrawf yn eich Gardd Llawn Bwyd i ymchwilio i gyflyrau newidiol gwahanol ddeunyddiau: gwahanu deunydd pridd, rhidyllu, hidlo, anweddu, ayb. | Daear a Gofod<br>Crëwch ddeial haul yn eich Gardd Llawn Bwyd – ymchwiliwch i hyd y dydd sydd ei angen er mwyn i wahanol blanhigion dyfu a monitrwch newidiadau yn hyd y dydd ac yn y tymheredd er mwyn rhagfynegi'r patrymau tyfu. | *Grymoedd*<br>*Casglwch hadau o'ch Gardd Llawn Bwyd ac ardaloedd natur eraill a nodwch y gwahanol fecanweithiau gwasgaru.* |
| Anifeiliaid - gan gynnwys bodau dynol<br>Nodwch y gwahanol anifeiliaid sy'n byw yn eich Gardd Llawn Bwyd a chreu gwahanol ddosbarthiadau, e.e. mamaliaid, infertebratau. | Trydan<br>Gwnewch baneli solar a'u gosod yn eich Gardd Llawn Bwyd. Dyluniwch arbrawf gwyddonol i gofnodi ble mae'r paneli'n gweithio orau.<br>Darparwch offer a gadewch i'r grwpiau weithio allan sut i wneud cloc tatws. Ymchwiliwch gyda llysiau eraill. A fydd hyn yn gweithio? Pam? Pam ddim? | Grymoedd<br>Dyluniwch arbrawf gan ddefnyddio detholiad o ddail o'ch Gardd Llawn Bwyd. Pa ddail/hadau sydd â'r gwrthiant aer lleiaf/mwyaf? Pam? Sut gallai hyn helpu i wasgaru hadau? E.e. sycamorwydden yn erbyn derwen.<br>Archwiliwch pa ffrwythau sydd â llawer o haearn trwy gynnal arbrawf magnet afal (a ffrwythau eraill). |
| Pethau Byw a'u Cynefinoedd<br>Nodwch yr adar sydd yn eich gardd. Dyluniwch eich cadwyn fwyd eich hun gyda'r aderyn a ddewiswyd ar y brig. Allwch chi weld ble mae'r planhigion yn eich Gardd Llawn Bwyd yn ffitio yn y gadwyn fwyd hon?<br>Ymchwiliwch ac arsylwch ar rôl mwydod a thrychfilod yn treulio deunydd organig ac yn helpu i greu pridd sy'n llawn maethynnau. | Esblygiad ac Etifeddiaeth<br>Edrychwch ar wahanol fathau o ffrwythau a llysiau yn eich Gardd Llawn Bwyd ac ymchwiliwch i fridio ar gyfer ymwrthedd i blâu.<br>Dewch o hyd i enghreifftiau o addasiadau yn eich Gardd Llawn Bwyd a sut maen nhw o fantais i'r planhigyn, e.e. tendrilau dringo ar ffa a phys. | Iechyd a Ffordd o Fyw<br>Crëwch 'Ddyn Gwyrdd' iach o ffrwythau a llysiau ar gyfer dathliad gŵyl y cynhaeaf<br>Casglwch falwod o'ch Gardd Llawn Bwyd a rhowch garthydd moron iddyn nhw er mwyn cofnodi cyflymder eu systemau treulio (bydd eu hysgarthion yn oren yn y pen draw). |
| Technoleg Bwyd<br>Prosiect: Dysgwch sut i wneud cawl yr hydref gan ddefnyddio cynnyrch o'ch Gardd Llawn Bwyd. Ymchwiliwch i wahanol fathau o fara a dysgwch sut i wneud bara i fynd gyda'ch cawl. Gwnewch a defnyddiwch bopty solar i gynhesu'ch cawl. | Dylunio ac Adeiladu<br>Dyluniwch ac adeiladwch bopty sy'n rhedeg ar ynni'r haul y gallwch chi ei roi yn eich Gardd Llawn Bwyd. Edrychwch pa rai sydd orau am gynhesu dŵr neu arhoswch tan i chi wneud cawl o'ch cynnyrch eich hun a gweld pa rai sy'n cynhesu gyflymaf. | Tecstilau<br>Gan ddefnyddio sgiliau printio sgrin, gwnïwch a chreu cyfres o faneri ar linyn i'w harddangos yn eich Gardd Llawn Bwyd gyda delweddau wedi'u hysbrydoli gan natur. |

CARDIFF CAERDYDD
All Saints Educational Trust